CYNGOR TREF PORTHMADOG

Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 10 2026

COFNODION

22.11.26 Presennol: Cynghorwyr :- Aled Griffith, Sarah G Williams, Gwilym Jones (Cadeirydd), Jeremy Davies, Ben Humphreys, Dion Humphreys, Carol Hayes, Edward Naish, Glenda Murray, Dr Melfyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Karena Owens , Michael Roberts

23.11.26 Ymddiheuriadau: Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys(Is-Gadeirydd)

24.11.26 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Hydref 6 2026
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Aled Griffith yn eilio.

25.11.26 Adroddiad y Cadeirydd
Dechreuodd drwy gyfeirio at brysurdeb ymwelwyr yn y dref dros wyliau'r hanner tymor. Braf iawn oedd gweld y dref mor brysur. Cyfeiriodd at berfformiad gwych Fa'ma yn Y Ganolfan ar 4.11.26 – prosiect ar y cyd rhwng Cwmni'r Fran Wen a rhai o ddisgyblion Ysgol Eifionydd . Cafwyd perfformiad gwych gan y 10 disgybl oedd yn cymryd rhan. Ar Dachwedd y 6ed cafwyd Agoriad Swyddogol i lwybr newydd Llyn Bach. Braf oedd gweld rhai o swyddogion Cyngor Gwynedd; cynrychiolwyr o'r YGC ac aelodau o'r cyhoedd yn dathlu'r achlysur gyda chôr o'r dair ysgol gynradd leol yn ogystal â rhai o ddisgyblion Bl 8 Ysgol Eifionydd.
Cafwyd tyrfa deilwng iawn ar Fryn Coffa ar fore Sul y Cofio. Roedd Bryn Coffa wedi ei addurno'n hardd ac yn edrych ar ei orau yn y tywydd braf.
Clywyd fel yr oedd y tri digwyddiad i dathlu Canmlwyddiant marwolaeth Eifion Wyn – cyngerdd, darlith a chymanfa ganu - wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Llwyddwyd i wneud elw o £1,600 a fydd yn mynd tuag at Gronfa Apêl Porthmadog i Eisteddfod yr Urdd 2028.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Glenda Murray a'r Cyng Karena Owens am eu gwaith caled yn trefnu'r gweithgareddau a chytunwyd i yrru cerdyn o ddiolch i'r Parch Iwan Llywelyn am ei gyfraniad gwerthfawr i'r dathliadau.

26.11.26 Adroddiad y Clerc
Rhanodd y newyddion :-

- fod Gardencraft am barhau i wasanaethu'r Cyngor Tref trwy ddarparu blodau i'r tybiau blodau.
- fod 'storfa'r gliniadur bellach wedi ei ymestyn i 15%
- fod angen i'r Cynghorwyr yrru ymlaen eu tystysgrifau hyfforddiant i'r Clerc

Dyma raglen hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer y Cynghorwyr canlynol :-

26.10.26	Sarah G Williams	Y Cyngor Modiwl 1	6.30
27.10.26	Edward Naish	Cynefino i gynghorwyr newydd	6.30
28.10.26	Alwyn Gruffydd Marian Roberts (Clerc)	Y Cyngor fel cyflogydd	2.30
23.11.26	Gwilym Jones Karena Owens	Y Cyngor fel cyflogydd	6.30
18.11.26	Llywelyn Rhys	Cyllid Llywodraeth Leol modiwl 6	6.30

DRAFT

18.11.26	Edward Naish	Y Cynghorydd	6.30
19.11.26	Ben Humphreys Dion Humphreys	Cynefino i gynghorwyr newydd	6.30

27.11.26 Datgan diddordeb.
Dim datganiad o ddiddordeb.

28.11.26 Ceisiadau Cynllunio.
(a) Rhif Cais / Application No.: C26/0600/44/DT (ebostio 12.10.26)
Lleoliad / Location: YNYS CYNGAR Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU
Bwriad / Proposal: Cais am adeilad allanol ategol unllawr newydd i gynnwys swyddfa gartref, campfa, storfa a garej. Bydd yr adeilad yn disodli'r garafán sefydlog bresennol a'r slab concrid presennol o 38m2
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebaid yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies ,Cyng Sarah Williams yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C26/0590/44/LL (ebostio 15.10.26)
Lleoliad / Location: THE UNION INN, 7 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB
Bwriad / Proposal: Dymchwel estyniadau cefn presennol a chodi estyniad unllawr newydd /
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebaid yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio.

c) Rhif Cais / Application No.: C26/0592/44/CR (ebostio 20.10.26)
Lleoliad / Location: THE UNION INN, 7 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB
Bwriad / Proposal: Dymchwel estyniadau presennol cefn a chodi estyniad unllawr newydd /
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebaid yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio.

d) Rhif Cais / Application No.: C26/0634/44/TC (ebostio 22.10.26)
Lleoliad / Location: PENNANT, 10 Stryd Ralph, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UA
Bwriad / Proposal: Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer trosiad llofft cefn arfaethedig gyda dormer bocs cefn i greu ystafell wely gyda balconi Juliette lled llawn a dwy ffenestr wydr afloyw ar yr ochr.
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

e) Cais Trwyddedu Pencei (wedi ebostio 27.10.26)
Penderfyniad :- gwrthwynebu'r oriau agor tan 01.00 am y rhesymau canlynol :-

- Llygredd sŵn yn cario i dai cyfagos
- Llygredd sŵn yn dod o gerbydau / tacsis yn gadael yr ardal yn oriau mân y bore
- Llygredd sŵn yn cario i fyny i drigolion y Garth uwchben
- Angen oriau cau yr un fath â thafarndai eraill Porthmadog – sef 00.00

yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies, Cyng Dion Humphreys yn eilio.
Cwestiynwyd yr oriau gwerthu alcohol am 08.00 gan fynegi pryderon am ystyriaethau iechyd y cwsmeriaid a'i fod yn hybu gor-ddibyniaeth alcohol ymysg y gymdeithas leol.
Cynigwyd gwelliant gan Cyng Alwyn Gruffydd i **ganiatau agor y drysau am 08.00 ond peidio a gwerthu alcohol tan 11.00; cau'r drysau am hanner nos,** Cyng Dr Melfyn Edwards yn

eilio
Penderfyniad :- cytuno â'r gwelliant.

f) Rhif Cais / Application No.: C26/0665/44/EIA (wedi ebostio 3.11.26)
Lleoliad / Location: LLyn Bach, Porthmadog, LL49 9BU
Bwriad / Proposal: Cais Cynllunio ar gyfer gosod dwy orsaf bwmpio dros dro a datblygiad ategol ar dir ger Llyn Bach, a rhyddhau amod 8 (Cynllun Lliniaru Pwmp Llifogydd Glaslyn) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C25/0946/44/EIA.
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Michael Roberts yn eilio.

f) Rhif Cais / Application No.: C26/0638/44/LL (wedi ebostio 6.11.26)
Lleoliad / Location: MEDDYG CARE DEMENTIA HOME - PORTHMADOG Ffordd Garth, Porthmadog,Gwynedd, LL49 9BN
Bwriad / Proposal: Gosod boeleri biomas a ffliwiau cysylltiedig / Installation of biomass boilers and associated
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd , Cyng Aled Griffith yn eilio.

ff) Rhif Cais / Application No.: C26/0687/17/DT (wedi ebostio 9.11.26)
Lleoliad / Location: PLAS Y DDÔL, 11 Y Ddôl, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HU
Bwriad / Proposal: Dymchwel estyniad cefn ac adeiladu estyniad unllawr cefn newydd ynghyd ac ystafell haul, a chodi estyniad uwchben y garej i greu llofft newydd
Penderfyniad :- Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Carol Hayes yn eilio.

MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

29.11.26 Penderfynu ar ddyddiad Archwiliad Cae Pawb
Penderfyniad :- cytunwyd ar 10.00 ar fore Sadwrn, Tachwedd 21. Bydd y Clerc yn rhannu poster i Gae Pawb ac yn ei roi ar dudalen Facebook Cae Pawb

30.11.26 Penderfynu ar ddarpariaeth llungopïo o Ebrill 2027 ymlaen
Penderfyniad :- gan fod anghenion llungopïo'r Cyngor Tref wedi lleihau yn sylweddol ers cychwyn ar y cytundeb 5 mlynedd sy'n dod i ben ym mis Ebrill cytunwyd i brynu llungopïwr newydd yn ei le pan ddaw'r amser. Y Clerc i chwilio yn y flwyddyn newydd am lungopïwr addas a cheisio cadw'r costau o dan £500.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

31.11.26 Cyng Aled Griffith : cynnig gyrru cerdyn i longyfarch Elfyn Evans ar ei lwyddiant diweddar yn ennill Pencampwriaeth Rali'r Byd yn Sardinia.
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

Cymerodd y Cyng Alwyn Gruffydd y gadair tra bu'r Cyngor yn trafod cynigion y Cadeirydd Cyng Gwilym Jones .

32.11.26 Cyng Gwilym Jones :- **cynnig ail-sefydlu'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo gyda chriw o tua 6 cynghorydd sydd yn ymddiddori neu'n arbenigo mewn materion ariannol.**
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Carol Hayes yn eilio.
Cytunwyd ar y canlynol i fod yn aelodau o'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo o'r cyfarfod nesaf ar

24.11.26 ymlaen :
Cynghorwyr : Dion Humphreys; Aled Griffith ; Glenda Murray; Jeremy Davies; Gwilym Jones; Llywelyn Rhys; Karena Owens

33.11.26 Cyng Gwilym Jones :- **cynnig defnyddio arian Incwm Parcio i brynu meinciau i'w gosod ar y llwybr llesiant newydd**
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Sarah G Williams yn eilio. Y Clerc i sicrhau caniatâd cynllunio priodol cyn archebu 5 mainc o'r un gwneuthuriad â'r rhai a brynwyd ar gyfer y Stryd Fawr – 4 yn y llefydd priodol ar Llyn Bach ac un i Borth y Gest oedd i fod wedi ei archebu ym mis Gorffennaf a gofyn i Gyngor Gwynedd am fwy o finiau ar y safle.

Dychwelodd y Cadeirydd Gwilym Jones i gadeirio'r cyfarfod.

34.11.26 Cyng Aled Griffith :- **cynnig gosod byrddau gwybodaeth /map ar fynedfeydd i mewn i'r dref yn y mannau canlynol: (gweler Gohebiaeth 1)**
Cob crwn - ger y cerflun Cob Crwn / Llyn bach
Y Cob - ger cerflun Madog
Yr Harbwr - ger Clwb Hwylio a Y Ganolfan
Yr Orsaf - ger y fynedfa i'r maes parcio
Ffordd Penamser - ger siop Go Outdoors.
Roedd Cyng Griffith wedi dod ag enghreifftiau o fapiau a chyfarwyddiadau cylchdroeon o gwmpas Porthmadog fel sail i drafodaeth bellach. Cafwyd peth dryswch felly ynglyn â statws y cynnig gwreiddiol. Cytunwyd ar yr egwyddor i edrych i mewn i'r posibiliadau o gyfuno'r ddau gynllun rhywsut.
Penderfyniad :- cytunwyd i greu gweithgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr i drafod y mater ymhellach yn y flwyddyn newydd yn ôl gwelliant Cyng Glenda Murray, Cyng Karena Owens yn eilio.

35.11.26 Cyng Aled Griffith :- cynnig Gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i holi a oes unrhyw gynllun i adeiladu unedau busnes ym Mhorthmadog fel sydd yn cael eu codi ym Minffordd a Phenygroes ar hyn o bryd.
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

36.11.26 Cyng Jeremy Davies :- **Cynnig bod y Cyngor Tref yn creu taflen holiadur ar ein safle Wê er mwyn i'r cyhoedd lawrlwytho ac ymateb. Creu cyfle i'r gymuned a chyfle i'r Cyngor Tref gael syniad beth yw blaenoriaethau lleol a chael gwybod pa gefnogaeth fyddai bwysicaf i bobl leol.**
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Dion Humphreys yn eilio. Y Clerc i gydweithio efo Cyng Glenda Murray a Cyng Jeremy Davies i lunio cwestiynau addas ar gyfer holiadur.

37.11.26 Cyng Aled Griffith:- **cynnig gyrru cerdyn ar ran y Cyngor Tref i longyfarch Cylch Meithrin Y Gorlan Fach ar eu llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf drwy Cymru yn y Chwarae a Dysgu tu allan ac am ennill yr ail wobr am y Cylch Meithrin gorau yn nhalaith Gogledd Orchewin Cymru.**
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Carol Hayes yn eilio.

38.11.26 Cyng Jeremy Davies :- **cynnig gweithredu i wella'r broses o rannu gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd a sefydliadau perthnasol eraill â chymunedau lleol.**
Penderfyniad :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Ben Humphreys yn eilio. Bydd y Clerc yn gofyn am 'linc' ar gyfer Facebook pan fydd yn derbyn gohebiaeth fydd o fudd i'r gymuned fel ei fod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

DRAFT

39.11.26 Mater Brys
Roedd Cyng Jeremy Davies yn egluro iddo wneud cais am grant i atgyweirio grisiau i fynd i lawr i'r môr ym Morth y Gest. Mae'r cais i fod i'w gyflwyno erbyn Rhagfyr y 7fed felly roedd yn gofyn am sêl bendith y Cyngor Tref i gefnogi'r cais ac i gefnogi cais am nawdd ariannol ar gyfer y prosiect hwn ym mis Chwefror. Cefnogwyd y cais, Cyng Glenda Murray yn eilio.

40.11.26 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhagfyr 8 2026 = Tachwedd 29 2026, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*
***C*yng Dr Melfyn Edwards** : cynnig ysgrifennu at swyddogion Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr i ofyn am wybodaeth i leddfu'r straeon sydd ar led am ddyfodol Ysbyty Alltwen

41.11.26 Gohebiaeth: Rhestr Aros am Ateb (copi ymghlwm)
Penderfyniad :- derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH :

42.11.26	Bwrdd Llanberis	Enghraifft o fwrdd ar gyfer cynnig Cyng Aled Griffith **Penderfyniad :- wedi trafod eisoes yn 34.11.26**
43.11.26	Glyn Williams (Greendocs)	Cynnig cytundeb llungopïwr **Penderfyniad :- wedi trafod eisoes yn 30.11.26**
44.11.26	Cai Rees Jones	Ymateb i 12.10.26 meinciau o flaen Swyddfa'r Heddlu **Penderfyniad :-** y Clerc i ddiolch iddo am ei wasanaeth effeithiol a sydyn yn ymateb i gais y Cyngor Tref i roi farnais ar feinciau o flaen Swyddfa'r Heddlu
45.11.26	Pauline Williams	**Defnydd o swyddfa'r Ganolfan** Nododd y Clerc mai yn ei chartref y bydd yn gweithio ond fod y swyddfa yn Y Ganolfan yn adnodd gwerthfawr iawn fel lle diogel i lungopïo / ffeilio / storio a chadw ffeiliau a dogfennau. **Penderfyniad :-** datgan hyn i Reolwr y Ganolfan a gofyn iddi gadw mewn cysylltiad trwy adael i'r Clerc wybod am unrhyw newidiadau sydd ganddi ar y gweill ar gyfer y swyddfa.
46.11.26	Cyngor Gwynedd	Cais Trwyddedu Pencei **Wedi trafod eisoes yn 28.11.26**
47.11.26	Y GANOLFAN	Apêl gymunedol **Penderfyniad :-** derbyn y wybodaeth a'r Cyngor Tref i noddi 3 sedd yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio**.**
48.11.26	IOAN GWILYM	Rhaglen ymgysylltu Plas Tanybwlch **Penderfyniad :-** derbyn y wybodaeth

49.11.26 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

1	HSBC	Llog Banc hyd at Hydref 19, 2026	£38.01
2	DEFIBSTORE	Ad-daliad am padiau anghywir i Defib Morfa B.	£112.80
3	CYNGOR GWYNEDD	Incwm parcio 04/26 i 30.09.26	£11,276.92

DRAFT

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd , Cyng Aled Griffith yn eilio :-

1	Marian Roberts	Cyflog Clerc Hydref 2026	£1,702.27
2	HMRC	Treth Incwm Clerc Hydref 2026	£425.57
3	Elfyn Lewis	Cyflog gwyliau 2026	£581.90
4	HMRC	Treth Incwm cyflog gwyliau Elfyn Lewis	£145.47
5	Tesco (cerdyn)	Batris i Ddefib Cerrig yr Afon	£50.00
6	Google Play (cerdyn)	Storfa ychwanegol i'r gliniadur – 3 mis @	£0.29
7	Karena Owens	Ad-daliad Bear Prints (Eifion Wyn)	£36.80
8	Glenda Murray	Ad-daliad Dewi Wyn – digido llun Eifion Wyn	£48.00
9	Snowdonia Print	Poster mawr Eifion Wyn	£106.80
10	SLCC (cerdyn)	Aelodaeth SLCC 14.10.2026-14.10.2027	£331.00
11	Tescomobile (Direct Debit)	Taliad misol cytundeb ffôn symudol y Cyngor Tref	£35.99
12	Xerox Finance (cerdyn)	Taliad llogi llungopïwr 1.1.26 – 1.10.26	£477.60
13	Zoom (cerdyn)	Tanysgrifiad blynyddol 28.10.26 i 28.10.27	£167.88
14	UN LLAIS CYMRU	Hyfforddiant Sarah G Williams 26.10.26 Hyfforddiant Edward Naish 27.10.26 Hyfforddiant Marian Roberts 28.10.26	£44.00 £44.00 £44.00
15	GARDENCRAFT	Clirio tybiau blodau	£75.00
16	Hampshire Flag Co (cerdyn)	30 x finial ar gyfer y polion fflag	£448.80

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.40

Marian Roberts
(Clerc)

12.11. 26

Marian Roberts, Swyddfa'r Cyngor Tref, Y Ganolfan, Porthmadog LL49 9LU
07541155462
E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com

DRAFT